

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD AR NOS LUN 25AIN O CHWEFROR 2019 YN FESTRI CAPEL PENTRE', LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Elfed Williams (Cadeirydd), Philip Williams, Hywel Davies, Arwel Davies, Bari Evans, Geraint Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Joseph Welch, Mr Gordon Hughes (Aelod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych) a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Iwan Jones, Stanley Williams, Jill Evans a Falmai Evans.

2. DATGAN DIDDORDEB.

- A. Cynghorydd Elfed Williams ar eitem 8A isod.
- B. Cynghorydd Philip Williams ar eitem 8B isod.

3. CADARNHAU COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 28ain o Ionawr 2019 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

- A. Diolchodd Mrs Rebecca Szekely, Cyfeiriwr Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych, am y croeso a chafodd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.
- B. Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth gwmni "Cadnant Planning" yn cadarnhau bod y gwaith ar dymchwel y cyn gwesty Bryn Morfydd wedi ei chychwyn erbyn hyn.
- C. Nodwyd Swyddog Cynllunio a Chydymffurfiaeth Cyngor Sir Ddinbych bod yna perchnogaeth llawn amser mewn carafán yn safle Carafanau Cae'r Mynydd yn Saron a bydd y Cyngor Sir yn cymered y camau cyfreithiol priodasol yn yr achos yma ar ôl ymchwiliad sylwadau'r Cyngor.
- D. Mae'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn dal i edrych i mewn i'r sylwadau'r Cyngor i'r materion ffyrdd y gymuned a chodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.
- E. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth bawb yn Ysgol Bro Cinmeirch am y poteli dwr metal a brwsys dannedd bambw a dderbyniwyd gan y Cyngor.
- F. Derbyniwyd adroddiad ymhellach oddi wrth y Cadeirydd ei fod mewn cysylltiad gyda Chadwyn Clwyd i weld os oes bosib gwneud "Astudiaeth Ddichonoldeb" ynglŷn ar broblem band eang yn y gymuned.

5. SESIYNAU HYFFORDDI UN LLAIS CYMRU.

Derbyniwyd rhestr o'r cyrsiau hyfforddiant Un Llais Cymru hyd at ddiwedd mis Mawrth 2019. Penderfynwyd yr aelodau sydd eisiau mynychu unrhyw gwrs hyfforddiant i adael i'r Clerc wybod cyn gynted â phosib.

6. PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL.

Derbyniwyd yr aelodau, trwy law'r Clerc, manylion taliadau gydnabyddiaeth ariannol Cynghorwyr Cynghorau Lleol fan "Panel Annibynnol Cymru". Mi fydd rhaid i bob aelod adael i'r Clerc wybod os maent am hawlio'r "Gydnabyddiaeth Ariannol" yn y flwyddyn ariannol yn diweddu 31ain o Fawrth 2019 cyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

7. CYLLID.

- A. Datganiad Banc £17,012.00.
- B. Tal Aelodaeth Un Llais Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2020 £145.00. Penderfynwyd yr aelodau i ail ymuno ac i dalu'r dal aelodaeth.

## 8. CEISIADAU BLYNYDDOL AM GEFNOGAETH ARIAN Y CYNGOR.

- A. Cymdeithas Cadwraeth Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch £500.00.
- B. Eglwys Dyfnog Sant Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch £400.00.
- C. Ysgol Bro Cinmeirch Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch £750.00.
- D. Clwb Sêr Ysgol Prion £500.00.
- E. Ysgol Pant Pastynog Prion £750.00.
- F. Pwyllgor Ardal Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch o'r Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 £1,000.00.
- G. Pwyllgor Rheoli'r Adnoddau Cymunedol Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch £400.00.

## 9. MATERION CYNLLUNIO.

- A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi derbyn cais "Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnyddio carafan bresennol fel llety preswyl warden gydol y flwyddyn" ar safle Maes Carafanau Cae'r Mynydd yn Saron. Cytunodd y Cynghorydd Bari Evans gysylltu â'r Cynghorydd Jill Evans am fwy o wybodaeth ynglŷn ar gais cyn i'r Clerc rhoi sylwadau'r Cyngor i'r Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych.
- B. Mae'r cais cynllunio i godi estyniadau ac addasiadau i'r annedd yn ffrith Fedw, Prion wedi ei thynnu yn ôl gan yr ymgeisydd.
- C. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-
  1. Codi estyniad i'r annedd a'r gwaith cysylltiedig yn Tan Yr Allt, Peniel.
  2. Datblygu 1.2 hectar o dir trwy godi 33 o breswyl (cais amlinellol yn cynnwys mynediad a chynllun) ar dir wrth Dolwar, Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch.

## 10. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

## 11. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

- A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-
  1. Angen biniau sbwriel cyhoeddus ym Mhrion.
  2. Tyllau yn y ffordd heibio Prion Isa', Pen-y-Gerddi a Chae Glas rhwng Prion a Peniel.
  3. Estynni'r arwydd 30 filltir yr awr ar yr A525 ym Mhentre' Llanrhaeadr tuag at Glanaber, Llanrhaeadr i gynnwys y datblygiad newydd (Llys Pant-y-Celyn).
  4. Arwydd sydd yn fflachio i atgoffa cyflymdya traffic ar yr A525 ym Mhentre' Llanrhaeadr.
  5. Twll ar y ffordd wrth yr Hen Vicarage ar y ffordd rhwng Llanrhaeadr a Llanynys.
  6. Mae yna rywun yn byw llawn amser yn y garfan flêr gyferbyn a'r fynwent Capel Saron.
- B. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ar broblemau carthffosiaeth yn y safle Maes Carfannau Cae'r Mynydd yn Saron.
- C. Derbyniwyd adroddiad fod yr hysbysfwrdd y Cyngor ym Mhrion eisiau ei thrwsio. Cytunodd y Cynghorydd Arwel Davies i gael contractwr i drwsio'r hysbysfwrdd.
- D. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu at gontractier stad Llys Pant-y-Celyn un Llanrhaeadr i ail plannu'r blodau ar dir glas ar ochr y A525 ar ôl orffen y datblygiad. Cytunodd y Cadeirydd i adael y Clerc wybod enw'r cwmni/contractwyr i'w ysgrifennu atynt.
- E. Penderfynwyd cytuno ar restr ffyrdd sydd eisiau blaenoriaethau ar gyfer gwaith cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 i anfon at Gyngor Sir Ddinbych.

## 12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 25ain o Fawrth 2019 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.